

Pontio Gwledd SYRCAS Feast

Artistiaid Preswyl

Mae tri chyn fyfyrwr dawnus o Goleg Menai wedi cael eu dewis fel artistiaid preswyl Pontio ar gyfer y Wledd Syrcas eleni. Bydd Elin Thirsk o Gaernarfon, Lora Jukes-Hughes o Ddinbych, a Lucy Kelly o Fae Cemaes, yn Pontio yn ystod y Wledd (18 – 27 Gorffennaf) a byddant yn mynd i berfformiadau, ymarferion a gweithdai yno - gan eu hysbrydoli i greu gweithiau celf newydd.

Bydd y cwpwrdd gwydr, sgrin a'r ffenest yn cael eu defnyddio fel llyfr braslunio er mwyn i'r arlunwyr gael rhannu eu syniadau a'r gwaith sydd ganddynt ar y gweill. Caiff y cynnwys ei ddiweddarau'n rheolaidd yn ystod y cyfnod preswyl a chaiff detholiad ei ddangos mewn arddangosfa wedyn.

Mae'r tri arlunydd ifanc wedi gorffen Gradd Sylfaen Celf WJEC yng Ngholeg Menai'n ddiweddar ac maent yn edrych ymlaen at barhau â'u hastudiaethau mewn prifysgol o fis Medi.

LUCY KELLY

Mae gan Lucy ddiddordeb mawr mewn dylunio graffig gan gredu yn ei bŵer i newid y ffordd rydym yn ystyried y byd. Ar hyn o bryd mae'n ymddiddori mewn cyflwyno anecdotau byr, annisgwyl yn aml, sy'n rhoi golwg dreiddgar ar fywydau pobl eraill. Mae'n taflunio'r naratifau hyn a ffilmwyd dros bortreadau llin-lun, gan awgrymu bod yna fwy o sylwedd i bob unigolyn yn aml na'r hyn sydd i'w weld ar yr olwg gyntaf.

Bydd Lucy'n mynd ymlaen i astudio Dylunio Graffeg ym Mhrifysgol Huddersfield.

ELIN THIRSK

Gweadedd a haenu sy'n mynd â bryd Elin ac mae'n eu defnyddio i gyflwyno atgofion gwerthfawr am ei thad, a fu farw'n ddiweddar oherwydd canser. Mae Elin yn cyfuno hen ffotograffau mewn modd sensitif gyda phrint a phwyth i greu gosodiadau tecstil aml-haenog sy'n archwilio teimladau o gariad a cholled.

Bydd Elin yn astudio Dylunio Tecstilau yn Central St Martins, University of the Arts, Llundain.

LORA JUKES-HUGHES

Gwleidyddiaeth, ffeministiaeth a'r cyfryngau prif ffrwd sy'n dylanwadu ar waith Lora. Gyda chefnidir mewn dawn, mae'r corff yn gyfrwng mynegiant pwysig iddi ac mae yna elfen berfformiadol i'w gwaith yn aml. Mae Lora'n edrych ymlaen at weld sut y gellir defnyddio syrcas i gyfleu neges bwerus.

Bydd Lora'n astudio Celf Gain yn Leeds.



Pontio Gwledd SYRCAS Feast

Artists in Residence

Three talented former Coleg Menai students have been selected as Pontio's artists in residence for the Circus Feast this year. Elin Thirsk of Caernarfon, Lora Jukes-Hughes of Denbigh and Lucy Kelly of Cemaes Bay will be based at Pontio during the Feast (18 – 27 July) and will have access to performances, rehearsals and workshops – inspiring the creation of new artworks.

The glass case, screen and window will act as a sketchbook type space to provide an introduction to the artists' work; to share ideas and works in progress. The contents will be updated regularly during the residency period and a curated selection will be exhibited thereafter.

All three young artists have recently completed a WJEC Art Foundation course at Coleg Menai and are looking forward to furthering their studies at University from September.

LUCY KELLY

Lucy has a keen interest in graphic design and believes in its power to change the way we perceive the world. Her current interest lies in capturing short, often unexpected anecdotes which provide an insight into other people's lives. She projects these filmed narratives over line-drawn portraits, suggesting that there is often more to each individual than first meets the eye.

Lucy will study Graphic Design at the University of Huddersfield.

ELIN THIRSK

Elin has an aptitude for texture and layering which she uses to explore treasured memories of her father, who she recently lost to cancer. Elin sensitively combines old photographs with print and stitch to create multi-layered textile installations exploring feelings of love and loss.

Elin will study Textile Design at Central St Martins, University of the Arts, London.

LORA JUKES-HUGHES

Lora's work is informed by politics, feminism and the mainstream media. With a background in dance, the body is an important tool of expression for her and there is often a performative element to her work. Lora is looking forward to seeing how circus can be used to convey a powerful message.

Lora will study Fine Art at Leeds.

